Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

Pleidleisio yn etholiad llywodraeth leol Cymru 2022

Cwestiynau cyffredin ar gyfer dinasyddion tramor cymwys

A allaf bleidleisio yn etholiad llywodraeth leol 2022?

Os ydych yn ddinesydd tramor cymwys sy'n byw yng Nghymru a'ch bod yn 16 oed neu drosodd, gallwch bleidleisio yn yr etholiad llywodraeth leol. Dinesydd tramor cymwys yw dinesydd gwlad arall sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arno/arni.

Os oes gennych gwestiynau am gofrestru i bleidleisio gallwch gysylltu â'ch tîm etholiadol lleol. Gallwch ddod o hyd i'w fanylion cyswllt drwy nodi eich cod post yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr/gwybodaeth-etholiad.

Beth mae llywodraeth leol yn ei wneud?

Mae cynghorau lleol (a elwir weithiau yn llywodraeth leol neu'n awdurdodau lleol) yn gwneud penderfyniadau ynghylch materion lleol sy'n effeithio arnoch bob dydd. Mae cynghorau yn gyfrifol am wasanaethau lleol gan gynnwys tai cymdeithasol, addysg, llyfrgelloedd, parciau a mannau cyhoeddus, ffyrdd a llwybrau troed a gwasanaethau cymdeithasol.

Caiff cynghorau lleol eu hethol bob pedair blynedd i'ch cynrychioli yn eich cyngor lleol. Mae'r ardal a gwmpesir gan eich cyngor lleol wedi'i rhannu'n ardaloedd llai o faint a elwir yn wardiau. Gallai eich ward fod wedi'i chynrychioli gan hyd at bedwar cynghorydd lleol.

Bydd eich cynghorydd lleol yn cymryd rhan yn y gwaith o weithio allan faint i'w wario ar wasanaethau lleol a datblygu cynlluniau ar gyfer eich ardal yn y dyfodol.

Pam dylwn i gofrestru i bleidleisio?

Os ydych am leisio eich barn am y materion sy'n bwysig i chi a phwy a ddylai eich cynrychioli mewn llywodraeth leol, mae angen i chi gofrestru i bleidleisio.

Sut y gallaf gofrestru i bleidleisio?

Gallwch gofrestru ar-lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Bydd ond yn cymryd pum munud i chi, a'r cyfan sydd ei angen arnoch yw eich rhif yswiriant gwladol a'ch dyddiad geni. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn etholiadau llywodraeth leol 2022 yw **14 Ebrill 2022.**

Os na allwch gofrestru ar-lein, gallwch gofrestru drwy'r post. Lawrlwythwch ffurflen yn https://www.gov.uk/government/collections/register-to-vote-paper-forms.

Os nad oes gennych Rif Yswiriant Gwladol, mae angen i chi nodi hyn ar eich cais i gofrestru ac yna barhau i'w gyflwyno. Bydd eich Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â chi i ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol i brofi pwy ydych.

A oes rhaid i mi bleidleisio?

Ym mhob etholiad yng Nghymru, chi sydd biau eich pleidlais. Gallwch benderfynu p'un a ydych am bleidleisio ai peidio a phwy rydych am bleidleisio drosto. Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un ddylanwadu arnoch i bleidleisio mewn ffordd benodol yn erbyn eich ewyllys.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn mynd i bleidleisio?

Pan fyddwch yn cyrraedd y gorsafoedd pleidleisio bydd aelod o staff yn gofyn am eich enw a'ch cyfeiriad ac yna'n rhoi eich papurau pleidleisio i chi. Wedyn, byddant yn dweud wrthych am fynd â'ch papurau pleidleisio i fwth pleidleisio lle y gallwch lenwi eich papur pleidleisio.



Election of councillors to ***[insert name of local authority]***

Ethol cynghorwyr i ***[rhowch enw'r awdurdod lleol]***

Vote for **only one candidate** by putting a cross ☒ in the box next to your choice.

Pleidleisiwch ar gyfer **un ymgeisydd** yn unig trwy roi croes ☒ yn y blwch nesaf at eich dewis

BARBER, Ali
5 Anytown Close, Anytown, AT34 6CY
Pelican Party
Parti Pelican

BOOTS, Dusty
63 Acacia Avenue, Anytown, AT33 5XZ
League of Line Dancers
Cynghrair y Dawnswyr Llinell

CLOVER, Elizabeth Mary
9 Seymour Court, Anytown, AT12 E34
Independent
Annibynnol

GREY, Earl
2 Cedar Lane, Anytown, AT23 4YD
Mad Hatter's Tea Party

HOOD, Robin
64 Purple Road, Anytown, AT12 7HT
Plaid y Goedwig

MILLER, Windy
7 Daisy Drive, Anytown, AT98 7RK
Alternative Power Forum

Y papur pleidleisio

Defnyddiwch y papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros ymgeisydd i gynrychioli eich ward (eich ardal leol). I bleidleisio, nodwch groes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un ymgeisydd. Bydd yr ymgeisydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau yn dod yn Gynghorydd Lleol ar gyfer eich Ward.

Sut y byddaf yn penderfynu pwy i bleidleisio drosto?

Dylech ddewis yr ymgeisydd a fyddai'r person gorau i'ch cynrychioli, yn eich barn chi. Mae'n bosibl y bydd yn rhannu eich barn neu'n blaenoriaethu materion sy'n bwysig yn eich barn chi.

Fel arfer, mae'r rhestr o ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad ym mhob ward cyngor ar gael ar wefan y cyngor ychydig wythnosau cyn yr etholiad.

Ble dylwn fynd i gofrestru?

Bydd pawb ar eich aelwyd sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn cael cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad. Bydd eich cerdyn pleidleisio yn nodi ble mae angen i chi fynd i bleidleisio.

A fydd fy mhleidlais yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

Bydd. Eich pleidlais chi a neb arall ydyw ac nid oes rhaid i chi ddweud wrth unrhyw un sut rydych wedi pleidleisio. Unwaith y byddwch wedi rhoi eich pleidlais yn y blwch pleidleisio, neu ei dychwelyd drwy'r post, caiff ei chadw'n ddiogel nes y bydd yr holl bleidleisau yn barod i'w cyfrif.

Caiff yr holl bapurau pleidleisio eu cymysgu â'i gilydd yn y cyfrif er mwyn sicrhau na fydd neb yn gwybod sut rydych wedi pleidleisio.

Rwy'n pryderu ynghylch Covid-19, a fydd yn ddiogel i mi bleidleisio'n bersonol?

Bydd gorsafoedd pleidleisio yn lleoedd diogel i bleidleisio. Efallai y bydd mesurau hylendid a phellhau ar waith i'ch helpu i gadw'n ddiogel yn yr orsaf bleidleisio. Gallai'r rhain gynnwys glanweithydd dwylo, marciau llawr a masgiau wyneb.

Os byddai'n well gennych bleidleisio drwy'r post neu fod rhywun arall yn pleidleisio ar eich rhan, mae angen i chi gofrestru i bleidleisio gyntaf ac yna gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais yn gynnar er mwyn rhoi digon o amser i'ch tîm etholiadau brosesu eich cais. I gael rhagor o wybodaeth neu gael ffurflen gais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, ewch i https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr neu ffoniwch ein llinell gymorth ar 0800 3 280 280.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Cewch ragor o wybodaeth am gofrestru yn https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.